# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Dyddiad ac Amser

**5.30 y.h., DYDD MERCHER, 11EG MAWRTH, 2020**

Lleoliad

**Ystafell Glaslyn, Y Ganolfan, Porthmadog**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Mawrth, 3 Mawrth 2020)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| E. Selwyn Griffiths | Aelod Lleol |
| Alwyn Gruffydd | Aelod Lleol |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Llywelyn Rhys | Porthmadog Town Council Representative |
| I'w gadarnhau | Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir |
| David Eastwood | Cynrychioli Buddiannau Harbwr |
| Dr John Jones-Morris | Cynrychioli Buddiannau Hamdden |
| Ian Roberts | Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol |
| Robert Owen | Cynrychioli Buddiannau Masnachol |
| Will Walker-Jones | Cynrychioli Sefydiad y Bad Achub Cricieth |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| David Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Cynghorydd Rob Triggs | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| Peter Read | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Hydref, 2019, fel rhai cywir (ynghlwm).

**5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 9 - 15

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau (ynghlwm).

**6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 7 Hydref, 2020, yn ddarostyngedig i'w gadarnhau gan y Cyngor Llawn.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG DYDD MERCHER, 9 HYDREF 2019

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Is-gadeirydd)

Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cyngor Gwynedd), ynghyd â'r Cynghorydd Llywelyn Rhys (Cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog), David Eastwood (Cynrychiolydd Buddiannau Harbwr), Dr John Jones-Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol) a Will Walker Jones (Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub Cricieth).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Nia Jeffreys yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi), Llyr B.Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned) a Malcolm Humphreys (Harbwrfeistr Porthmadog) (oedd newydd golli ei fam-yng-nghyfraith).

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Grisiau'r Môr

Nododd Cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog y dymunai godi mater ynglŷn â Grisiau'r Môr ar gais unfrydol y Cyngor Tref yn eu cyfarfod y noson cynt, gan adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref ar y mater yn eu cyfarfod nesaf. Nododd y Cadeirydd nad oedd gwrthwynebiad i drafod hyn.

Eglurodd Cynrychiolydd y Cyngor Tref fod llythyru wedi bod ers cryn amser rhwng y Cyngor Tref a'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig a Chlwb Hwylio Porthmadog ynglŷn â mynediad i'r cyhoedd i Risiau'r Môr. Pwysleisiodd fod y grisiau hyn yn rhan o etifeddiaeth a hanes tref Porthmadog a bod y Cyngor Tref yn gryf o'r farn bod angen gwarchod traddodiad oes o hawl pobl leol i fwynhau Grisiau'r Môr. Cyfeiriodd at y gwaith o adeiladu mynediad i pontwns i lawr Grisiau'r Môr rhwng 2002 a 2004, gan bwysleisio fod llythyr a dderbyniodd y Cyngor Tref gan y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig dyddiedig 16 Medi, 2019 yn nodi

"*pan ddatblygwyd y cynllun gosod pontŵn gwreiddiol gan glwb hwylio, bu i'r Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig sicrhau na fyddai'r datblygiad yn cyfyngu mynediad at y dŵr ger safle'r Grisiau Llechi [Grisiau'r Môr]".* Roedd y llythyr hefyd yn nodi "*gwerthwyd hyn i'r Clwb Hwylio, ac mae'n bosib' bod hyn wedi'i gofnodi mewn cyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog".*

Nododd ymhellach fod y giât fetel gydag arwydd 'Dim mynediad heibio'r pwynt yma' arni yn gwrthddweud cyfarwyddyd yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig, ar adeg cynllun gosod y pontŵn gwreiddiol, bod mynediad i'r cyhoedd yn parhau. Yn wir, roedd bellach yn amhosib' cael mynediad i'r grisiau hanesyddol gwreiddiol eu hunain oherwydd bod Pont Mynediad y pontŵn wedi ei adeiladu ar eu pennau, ac roedd angen cywiro hyn.

Nododd y Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden fod y Clwb Hwylio wedi ysgrifennu at y Cyngor Tref dair gwaith yn egluro'n union beth yw'r sefyllfa, a bod yr arwydd yn nodi'n glir bod gan unrhyw un sy'n defnyddio'r harbwr hawl i gael mynediad i'r dŵr i lwytho / dadlwytho cychod, ayb.

Nododd Cynrychiolydd y Cyngor Tref fod yr arwydd yn dweud *"Arwydd diogelwch - mynediad preifat - Pontŵn at ddefnydd defnyddwyr yr Harbwr yn unig - dim pysgota na chrabio".* Nid oedd y geiriau *'mynediad preifat'* na'r giât haearn yn gwahodd mynediad i'r pontŵn, hyd yn oed i ddefnyddwyr cychod, ac roedd yn gwneud i bobl deimlo fel eu bod yn tresbasu ar eiddo preifat.

Mewn ymateb, eglurodd y Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden fod yr arwydd yn dweud '*mynediad preifat'* oherwydd bod y ramp ym mherchnogaeth y Clwb Hwylio, a hwy hefyd oedd yn gyfrifol am ei archwilio, ei gynnal a'i gadw a'i yswirio. Gan hynny, roedd yn ofynnol gosod rhyw fath o gyfyngiad ar bwy fyddai'n cael mynd yno, ond ategodd y ffaith bod gan unrhyw un sy'n defnyddio'r harbwr hawl i fynd i lawr i'r dŵr.

Esboniodd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig fod yr Uned wedi cydweithio gyda'r Clwb Hwylio, y pwyllgor hwn a Phwyllgor Ardal Dwyfor ers blynyddoedd ynglŷn â'r mater hwn. Nododd fod y grisiau gwreiddiol (sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd) yn cael eu gorchuddio gan lanw ar adegau, ac felly'n llithrig ac roedd sawl damwain wedi bod yma. Er na ddymunid cau'r grisiau, roedd rhaid bod yn wyliadwrus. Eglurodd ymhellach, pan ddatblygwyd y cynllun, bod cytundeb y byddai un pontŵn yn cael ei neilltuo ar gyfer cychod sy'n ymweld â'r harbwr i lwytho / dadlwytho, ac nid oedd y sefyllfa honno wedi newid. Efallai bod cyfle i ail-edrych ar eiriad yr arwydd gyda'r Cyngor Tref a'r Clwb Hwylio, ond pwysleisiodd, cyn belled ag roedd mynediad cyhoeddus yn y cwestiwn, mai mynediad at ddefnydd yr harbwr yn unig oedd yn cael ei ganiatáu.

Nododd Cynrychiolydd y Cyngor Tref y dylid diogelu'r grisiau yn hytrach na'u cau i ffwrdd a'u rhoi i ffwrdd i glwb preifat. Ychwanegodd, a derbyn bod y pontŵn wedi ei adeiladu yma, a bod y penderfyniad wedi ei wneud flynyddoedd yn ôl drwy gytundeb ac ymgynghoriad, nad oedd y sefyllfa bresennol yn dderbyniol.

Nododd y Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden fod y cynllun wedi'i gymeradwyo gan Cadw gan bod y waliau yn rhestredig.

Pwysleisiwyd ei bod yn hanfodol bod y gwasanaethau brys yn gallu cael mynediad at y dŵr.

Cynigiodd Cynrychiolydd y Cyngor Tref fod y giât yn cael ei thynnu i ffwrdd a bod arwydd yn cael ei osod yn pwysleisio bod angen mynediad i'r gwasanaethau brys. Pwysleisiodd unwaith yn rhagor na ellid cau mynediad cyhoeddus.

Mewn ymateb, nododd y Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden nad oedd tynnu'r giât yn opsiwn a phwysleisiodd fod defnyddwyr yr harbwr yn llwyr ymwybodol bod mynediad iddynt fynd a dod yn rhwydd fel y mynnont.

Nododd Cynrychiolydd y Cyngor Tref nad oedd pawb yn ymwybodol o hynny.

Awgrymodd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig y gallai'r Cyngor Tref gynnig geiriad amgen ar gyfer yr arwydd, ond pwysleisiodd na fyddai'r pontŵn na'r Bont Mynediad yn cael eu tynnu i ail-agor y grisiau, gan fod y sefyllfa bresennol yn fwy diogel na'r hyn oedd yno gynt.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Gynrychiolydd y Cyngor Tref, cadarnhaodd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd yna hawl tramwy cyhoeddus y tu hwnt i'r giât, eithr mynediad i ddefnyddwyr yr harbwr yn unig. Nododd y Cynrychiolydd Hamdden na chredai y byddai newid geiriad yr arwydd yn gwneud gwahaniaeth gan fod yr arwydd presennol yn datgan yn glir bod mynediad i bobl sydd angen llwytho / dadlwytho eu cychod.

Nododd y Cadeirydd ei bod yn amlwg bod dryswch ynghylch pwy sydd â'r hawl i ddefnyddio'r ramp o dan wal yr Harbwr a gofynnwyd i'r Cynrychiolydd adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref ar yr hyn a drafodwyd yn y pwyllgor hwn.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 6 Mawrth, 2019, fel rhai cywir.

<u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>

<u>Eitem 2 – Materion Brys</u>

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig y cafwyd trafodaeth bellach gyda Chwmni Wynnes ac y rhoddwyd neges glir iawn iddynt na fyddai'n ymarferol gwagio Harbwr Porthmadog o gychod ym Mehefin / Gorffennaf 2020 er mwyn i long oedd ynghlwm â gwaith trawsnewidyddion yn Nhrawsfynydd a Ffestiniog dramwyo'r harbwr. Awgrymwyd i'r cwmni edrych ar leoliadau eraill ac roeddent yn y broses o asesu'r posibiliadau ar draeth Morfa Bychan, fyddai'n golygu dod â'r llong i mewn ar lanw uchel, glanio a sychu allan. Byddai'r lori yn gadael y llong ac yn gwneud ei ffordd ar hyd y ffordd gyhoeddus at gyfeiriad Trawsfynydd. Cadarnhawyd bod y ffordd yn ddigon llydan i gymryd y llwyth a chafwyd trafodaethau cychwynnol gydag Adran Briffyrdd y Cyngor ynglŷn ag ansawdd / cryfder y ffordd i dderbyn y llwyth. Mater i'r cwmni fyddai gwneud asesiad o'r hyn fyddai ei angen a'r costau, ond gan na chlywyd dim pellach ganddynt ers hynny, roedd yn annhebygol iawn y byddai'r llong yn dod i'r ardal ym mis Mehefin wedi'r cyfan, ond rhoddid gwybod i aelodau'r pwyllgor petai yna unrhyw ddatblygiadau yn y cyfamser.

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR**

Cyflwynodd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn diweddaru'r pwyllgor ar faterion yr Harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2019 a mis Hydref 2019. Gwahoddwyd adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

Dosbarthwyd y canlynol yn y cyfarfod:-

- Crynodeb o gyllideb yr Harbwr a'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd Medi, 2019.

- Drafft o'r ffioedd a'r taliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Porthmadog yn 2020/21 (yn cynnwys a heb TAW). Nodwyd y byddai'r drafft yn cael ei gyflwyno i'r Aelod Cabinet ym mis Rhagfyr.

Nodwyd bod y ffigurau cofrestriadau cychod pŵer a chychod dŵr personol yng Ngwynedd ym mharagraffau 2.4 a 2.6 o'r adroddiad yn wahanol i'r hyn a nodwyd yn y tablau yn yr atodiadau i'r adroddiad. Eglurwyd na pharatowyd y ddau set o wybodaeth ar yr un adeg, ond y byddai'r ffigurau'n cael eu cysoni erbyn y cyfarfod nesaf.

Nododd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig bod aelod wedi holi sut roedd y Cyngor am ddelio gyda phroblem y cynnydd yn y mwd / tywod sy'n casglu ochr y trên bach o'r Harbwr. Eglurwyd, er bod gan Gyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Harbwr, yr hawl i garthu'r Harbwr, nad oedd gorfodaeth arno i wneud hynny. Roedd y gwaith o garthu unrhyw harbwr yn hynod gymhleth a chostus. Bu rhywfaint o waith carthu'r Harbwr yn 1994, gan gludo'r mwd oddi yno i safle gwaredu cyfagos, ond gan fod hynny bellach yn groes i reoliadau Ewrop, byddai'n rhaid cludo'r deunydd i safle tua 15 milltir i'r Gogledd o Gaergybi. Er bod y trefniadau, y lefelau incwm a'r hawliau mewn lle i garthu harbyrau Pwllheli a Chaernarfon, ni ragwelid y byddai'n bosib' gwneud y math yma o waith ym Mhorthmadog, Abermaw nac Aberdyfi. Mewn ymateb i gwestiwn pellach gan yr aelod, eglurodd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd y cynnydd yn y mwd / tywod yn yr Harbwr yn arwain at golli llefydd i angori mwy o gychod gan fod yna lawer o gapasiti yn yr Harbwr ar hyn o bryd i gymryd angorfeydd. Holwyd ai perchnogion y tai ar ochr bela'r Harbwr oedd â hawl ar yr angorfeydd yno. Mewn ymateb, nodwyd bod sedd y Cynrychiolydd Buddiannau Perchnogion Tir ar y pwyllgor hwn yn wag ar hyn o bryd a bod ganddynt hawl i enwebu cynrychiolydd i ddod i'r cyfarfodydd.

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Harbyrau adroddiad yr Harbwrfeistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2019 a mis Hydref, 2019, gan gynnwys materion cynnal a chadw.

Dosbarthwyd y canlynol yn y cyfarfod:-

- Drafft o'r Is-ddeddfau Harbwr a gofynnwyd i aelodau'r pwyllgor gyflwyno unrhyw sylwadau fyddai ganddynt ar yr is-ddeddfau drafft cyn 31 Rhagfyr, 2019. Nodwyd bod copi electroneg o'r ddogfen ar gael petai'r aelodau'n dymuno hynny.
- Rhaglen waith cynnal a chadw Harbwr Porthmadog yn ystod y cyfnod Hydref 2019 – Chwefror 2020.

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad, codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd y byddai adroddiad Tŷ'r Drindod, yn sgil eu harchwiliad blynyddol o gymorthyddion mordwyo yn yr Harbwr a dynesfa'r sianel rhwng 14 ac 16 Hydref, yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Mawrth.
- Adroddwyd bod yr Uned wedi cael sioc yn ddiweddar o dderbyn sylwadau gan Glwb Hwylio Porthmadog ynglŷn â diffyg cynnal a chadw cymorthyddion mordwyo yn yr Harbwr. Darllenwyd llythyr y Clwb Hwylio i'r aelodau oedd yn cyfeirio at gam-leoli cymorthyddion ac arafwch cyfleu negeseuon i forwyr a phwysleisiwyd bod yr Uned yn rhyddhau rhybudd i forwyr yn rheolaidd pan fydd y sianel yn newid. Eglurwyd y cysylltwyd yn ôl â'r Clwb Hwylio yn awgrymu eu bod yn trafod y materion hyn gyda'u cynrychiolydd ar y pwyllgor hwn, gyda'r bwriad iddo ymhelaethu ar y sefyllfa yn y cyfarfod hwn. Cadarnhaodd y Cynrychiolydd na ofynnwyd iddo godi'r mater ac ychwanegodd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd unrhyw forwr arall, na Thŷ'r Drindod wedi codi pryderon.
- Diolchwyd i'r Clwb Hwylio am gynnig lle i gadw'r cwch Dwyfor wrth y pontŵn sydd ym mherchnogaeth a rheolaeth y Clwb.

- Rhoddodd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig diweddariad i'r aelodau o'r sefyllfa yn dilyn achos diweddar o yrru beiciau modur dŵr yn anghyfrifol ac yn ymosodgar yng Nghricieth. Nodwyd y deellid bod yr heddlu yn parhau i ymchwilio i'r digwyddiad. Nododd Cynrychiolydd y Cyngor Tref iddo yntau weld beicwyr dŵr yn ymddwyn yn beryglus yn ddiweddar a holodd beth ddylai aelodau o'r cyhoedd wneud mewn sefyllfa o'r fath, lle mae'r sefyllfa'n amlwg yn beryglus, ond ddim yn argyfwng sy'n teilyngu galw 999. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n cynghori pobl i ffonio Galw Gwynedd, yr Harbwrfeistr neu'r Swyddog Morwrol ym Mhwllheli, gan nodi dyddiad, amser a lleoliad y digwyddiad peryglus, a gofynnwyd i'r aelodau ledaenu'r neges yma.
- Nododd y Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig iddo dderbyn llythyr gan Gyngor Tref Cricieth yn galw am wahardd badau dŵr personol yn gyfan gwbl rhwng Porthmadog a Phwllheli. Roedd eisoes wedi egluro wrth y Cyngor Tref nad oedd gan Gyngor Gwynedd y pwerau i wneud hynny, y byddai'n anodd iawn ei reoli ac y byddai yna effaith economaidd hefyd. Fodd bynnag, roedd wedi addo i'r Cyngor Tref y byddai'n dod â'r mater gerbron y pwyllgor hwn. Nododd ymhellach y byddai angen mwy o swyddogion i wneud y gwaith goruchwylio ac i weithio y tu allan i oriau arferol. Roedd y Cyngor yn dibynnu ar y cyhoedd i gadw llygaid ar bethau, ond roedd nifer y cwynion sy'n dod i law yn isel iawn o gymharu â'r niferoedd sy'n mwynhau'r gweithgaredd yma. Hefyd, er bod yna Is-ddeddfau yng Nghricieth a Morfa Bychan, nid oedd hynny'n bod mewn llefydd eraill ar hyd yr arfordir. Gofynnwyd i bawb adrodd os ydynt yn gweld unrhyw ddigwyddiad afresymol. Cytunwyd i hysbysu Cyngor Tref Cricieth bod y pwyllgor hwn wedi trafod eu llythyr gan awgrymu iddynt eu bod yn cryfhau'r Is-ddeddfau presennol.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurwyd y ceisiwyd hybu twf economaidd y dref yn y gorffennol drwy beidio codi ffioedd am gynnal digwyddiadau yn yr Harbwr. Fodd bynnag, roedd y gost o lanhau a thacluso ar ôl digwyddiadau yn golygu y byddai'n rhaid ail-edrych ar hyn ar gyfer 2020. Cadarnhawyd ei bod yn arferol i godi ffioedd ar gwmnïau ffilm a theledu a bod rhaid i'r cwmnïau hynny gael caniatâd y Cyngor yn y lle cyntaf i ffilmio.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.**

## 8. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Mawrth, 2020.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30 y.h. a daeth i ben am 6.50 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **11 Mawrth 2020** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad.**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod rhwng mis Hydref 2019 a Mawrth 2020, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a gweithredol yr Harbwr.

1.3 Mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn Bwyllgor Harbwr statudol, a sefydlwyd yn unol ag Adran 6(2) (a-j) Gorchymyn Addasu Harbwr Porthmadog 1998. Yn ôl y gorchymyn, mae pymtheg (15) aelod yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r grwpiau a'r sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y pwyllgor Harbwr yng Ngorchymyn yr Harbwr.

**2. Angorfeydd Porthmadog a Chofrestru Cychod**

2.1 Yn unol â blynyddoedd blaenorol, bydd archwiliad tanddwr o'r angorfeydd yn yr harbwr yn cael ei gynnal dan oruchwyliaeth yr Harbwrfeistr. Hyd yma, mae nifer o ymholiadau eisoes wedi cyrraedd swyddfa'r harbwr ynglŷn ag angorfeydd yr harbwr a chofrestru cychod ar gyfer y flwyddyn sydd o'n blaenau.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd**

3.1.1 Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn nodi'r safon genedlaethol, dan arweiniad y llywodraeth, ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd y porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.1.2 Mae gan y Gwasanaeth God Diogelwch sydd wedi ei ddiwygio a'i ddiweddaru yn llawn ar gyfer Harbyrau Gwynedd, gan gynnwys harbwr Porthmadog, a gymeradwywyd gan yr Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau yn dilyn archwiliadau a gynhaliwyd y llynedd.

3.1.3 Fel mater o arfer safonol, bydd y Gwasanaeth yn parhau i adolygu ei God Diogelwch Morol Porthladdoedd. Dylai aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol gyflwyno unrhyw sylwadau a allai fod ganddynt ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch, ynghyd ag unrhyw sylwadau ynglŷn â threfniadau gwaith yr harbwr, er mwyn sicrhau bod y cod yn parhau yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr lleol.

**4. Materion Staffio**

Mae'r Awdurdod Harbwr yn falch o gadarnhau bod ganddo bellach dri harbwrfeistr cynorthwyol, sydd wedi eu cyflogi'n llawn amser gan Gyngor Gwynedd, ac sydd yn gweithio ar draws harbyrau Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi. Yn wahanol i'r staff a benodir yn dymhorol, trwy ddilyn rhaglen hyfforddiant strwythuredig, bydd yr harbwrfeistri cynorthwyol sydd newydd eu penodi yn cynnig proffesiynoldeb uwch a gwell amodau gweithio, ac yn hwyluso cynllunio olyniaeth o fewn y Gwasanaeth.

**5. Materion Ariannol**

5.1 Bydd crynodeb bras o gyllidebau'r harbwr a'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei rannu â'r Pwyllgor yn y cyfarfod.

5.2 Yn ystod y cyfnod roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr hyn a ganlyn:

- Cyflogi Cynorthwyydd Harbwr llawn amser
- Cynnal a chadw cymorthyddion mordwyo a goleufeydd, gan gynnwys Bwi Fairway Porthmadog
- Cynnal a chadw cychod yr harbwr, gan gynnwys prynu offer ychwanegol ar gyfer y cwch patrôl Powercat er mwyn cydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer a galluogi'r cwch i gael ei ddefnyddio ar y môr

- Cynnal a chadw'r tiroedd a'r celfi stryd

5.3 **Ffioedd a Thaliadau 2020/21**

Ar ddiwrnod y cyfarfod, bydd y Gwasanaeth yn darparu manylion ffioedd a thaliadau Harbwr Porthmadog ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2020 ac Ebrill 2021, ynghyd â'r ffioedd lansio ar gyfer cychod pŵer a chychod personol ar gyfer yr un cyfnod.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Porthmadog yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2019 a mis Mawrth 2020, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Copi o'i adroddiad yw'r brif ddogfen.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **11 Mawrth 2020** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **M. Humphreys, Harbwrfeistr Porthmadog** |

## H 1 Materion Mordwyo

1.1 Dros gyfnod y gaeaf, mae symudiadau cychod yn nynesfeydd yr harbwr a'r sianel wedi bod yn gyfyngedig iawn. Mae'r tywydd gaeafol a'r symudiadau cysylltiedig yn llwybr y sianel fordwyo wedi achosi i nifer o fwiau adael eu safleoedd neu leoliadau priodol, gan greu angen am waith ar y sianel. Mae'r stormydd diweddar, 'Ciara' a 'Dennis', wedi gwaethygu'r sefyllfa.

1.2 Yn dilyn cymeradwyaeth gan Dŷ'r Drindod, mae bwi Fairway Porthmadog wedi ei dynnu o'r dŵr ar hyn o bryd, ac mae'n cael ei atgyweirio yn harbwr Pwllheli. Unwaith y bydd wedi ei atgyweirio, caiff y bwi ei ddychwelyd i'r dŵr cyn gynted ag y bo modd.

1.3 Cynghorir y dylid cyfyngu mordwyo o fewn y sianel i 1.5 awr ar y naill ochr i'r penllanw, yn enwedig wrth fordwyo cwch sydd â dyfnder o fwy nag 1.5 medr. Lle bo modd, dylid cysylltu â swyddfa'r harbwr cyn ymadael neu ddynesu at yr harbwr er mwyn derbyn y wybodaeth fordwyo ddiweddaraf. Mae unrhyw newidiadau i gymorthyddion mordwyo'r sianel a gwybodaeth fordwyo gyfredol wedi eu cynnwys yn yr Hysbysiadau Lleol i Forwyr a gynhyrchir gan yr Harbwrfeistr.

1.4 Ar hyn o bryd, mae tri 'Hysbysiad Lleol i Forwyr' yn weithredol yn Harbwr Porthmadog.

1.4.1 Rhybudd i Forwyr rhif 23/19 - Nid yw'r cymhorthydd mordwyo Marc Dŵr Diogel yn ei safle priodol ar hyn o bryd gan ei fod yn cael ei atgyweirio.

1.4.2 Rhybudd i Forwyr rhif 28/19 - Nid yw cymhorthydd mordwyo starbord Bwi Rhif 1 yn ei safle priodol ar hyn o bryd, ac mae'n disgwyl cael ei leoli.

1.4.3 Rhybudd i Forwyr rhif 01/2020 - Nid yw cymhorthydd mordwyo starbord Bwi Rhif 3 yn ei safle priodol ar hyn o bryd, ac mae'n disgwyl cael ei leoli.

1.4.4 Mae'r Gwasanaeth yn nodi y bydd yr holl farciau mordwyo yn eu lle ac yn hollol weithredol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosib.

## H 2 Materion Gweithredol

2.1 Mae'r gwasanaeth wedi derbyn hysbysiad gan y Grid Cenedlaethol, yn mynegi'r angen i gludo trawsnewidydd mawr trwy harbwr Porthmadog ar long, er mwyn ei gludo ymlaen i orsaf bŵer Trawsfynydd ar hyd y ffordd. Mae gofyn i'r trawsnewidydd fod yn ei le erbyn dechrau mis Mehefin eleni.

2.1.1 Byddai'r prosiect i dderbyn y trawsnewidydd drwy'r harbwr yn helaeth ac yn achosi tarfu sylweddol dros dro i weithgareddau arferol yr harbwr. Byddai'r gwaith paratoi yn cynnwys datgymalu a thynnu'r strwythur pontŵn sydd ym mherchnogaeth a rheolaeth Clwb Hwylio Madog o ddŵr yr harbwr dros dro, yn ogystal â nifer sylweddol o

angorfeydd yr harbwr. Byddai gofyn hefyd i dynnu rheiliau'r harbwr wrth angorfa Pen Cei. Yn dilyn trafodaeth â'r sawl a wnaeth y cais, mae'r rheolwyr prosiect sy'n gweithredu ar ran y Grid Cenedlaethol yn ystyried gollwng y trawsnewidydd ar draeth Morfa Bychan, fel safle amgen. Mae'r Gwasanaeth yn disgwyl penderfyniad y Grid Cenedlaethol ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

2.1.2 Mae cwmni Seimens wrthi'n adeiladu'r trawsnewidydd ar safle yn Croatia. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, y disgwyl yw y bydd y llong yn cychwyn ar ei thaith rhywbryd ar ôl 17 Mawrth, pan fydd y trawsnewidydd yn cael ei brofi yn y ffatri. Nid oes union ddyddiad cyrraedd ar hyn o bryd. Mae'r Grid Cenedlaethol hefyd wedi hysbysu'r Gwasanaeth ynglŷn â mewnforiad tebyg y flwyddyn nesaf, a bwriad i fewnforio adweithydd yn 2025.

2.1.3 Mae'n bosib y bydd perchnogion cychod yn yr harbwr a effeithir gan y mewnforiad yn cael eu gwahodd i angori eu cwch yn harbwr Pwllheli dros dro, nes y bydd y cyfleusterau angori wedi eu hailsefydlu ym Mhorthmadog. Fel dewis amgen, mae gan berchnogion y dewis i godi'r cwch o'r dŵr â chraen, a chadw'r cwch dros dro ar y lan, ar ardal o'r cei rhwng Swyddfa'r Harbwr a'r llithrfa.

2.1.4 Mae'n fwriad gan y Gwasanaeth i adennill yr holl gostau sydd ynghlwm â'r prosiect gan gontractwyr y mewnforiad a'r Grid Cenedlaethol fel ei gilydd. Fodd bynnag, ni ellir gwarantu y caiff y costau eu hadennill. Wrth ystyried datblygu'r pontŵn yn y lle cyntaf, gwnaethpwyd y posibilrwydd y byddai angen i long gael mynediad at Pen Cei ac y byddai angen datgymalu'r pontynau yn gwbl glir i Glwb Hwylio Madog.

2.2 Mae'r Gwasanaeth wedi derbyn gwybodaeth gan gwmni 'Intertek', sy'n gweithredu ar ran y Grid Cenedlaethol, am ddau gais ar wahân am drwyddedau morol dan brosiect Darpariaeth Effaith Weledol (VIP) Eryri.

2.2.1 Mae'r trwyddedau hyn yn ymwneud â thynnu tyrrau peilonau trydanol sydd wedi eu lleoli ar gorsydd heli aber afon Dwyryd, ynghyd â gweddillion sylfeini tŵr peilon a dynnwyd ymaith yn flaenorol; ac adeiladu twnel 15 metr islaw datwm ordnans at ddiben cludo cebl trydanol.

2.2.2 Dylai'r gwaith o dynnu'r peilonau ddechrau yn 2025, ac mae'n ofynnol gan y Grid Cenedlaethol i'r ddau gais am Drwyddedau Morol gael eu cyflwyno ar yr un pryd â cheisiadau cynllunio ym mis Mawrth eleni.

**H 3 Cynnal a Chadw**

3.1 Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld y caiff archwiliad o angorfeydd yr harbwr ei gynnal fel rhan o'r broses o dderbyn mewnforiad y trawsnewidydd. Bydd y contractwr angorfeydd yn newid unrhyw offer angori y nodir ei fod wedi gwisgo neu ddifrodi ar yr adeg hwnnw.

3.2 Mae staff yr harbwr wedi bod yn gweithio ar atgyweirio nifer o farciau mordwyo dros gyfnod y gaeaf, ac mae'r rhain bellach yn barod i'w gosod yn eu lle.

3.3 Mae'r 'Porthmadog', y cwch tendr bychan a ddefnyddir gan staff yr harbwr, yn cael gwaith cynnal a chadw ar hyn o bryd. Yn ogystal â rhywfaint o waith gwydr ffibrog a phaentio angenrheidiol, mae'r cwch hefyd yn cael gynwalau pren newydd i gymryd

lle'r preniau sy'n pydru. Yn dilyn hyn, bydd y cwch yn dychwelyd at ei swyddogaethau gweithredol arferol.

3.4 Mae gwaith hefyd yn parhau ar hyn o bryd i gynnal a chadw ac uwchraddio'r offer sydd ar fwrdd cwch patrôl Powercat yr harbwr, yn unol â gofynion yr Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau. Yn amodol ar ganllawiau gweithredu, bydd hyn yn caniatáu i'r cwch fynd allan i'r môr a phatrolio'r ardal y tu hwnt i gyfyngiadau ardal sianel Porthmadog i Forfa Bychan a Chricieth.

3.5 O amgylch ardal yr harbwr, mae gwaith wedi dechrau i baentio rheiliau'r harbwr sy'n rhedeg ar hyd wal ogledd-orllewinol y cei ger swyddfa'r harbwrfeistr, ac yn ymestyn y tu hwnt i llithrfa'r harbwr hyd at bwynt ger safle Clwb Hwylio Madog. Yn y cyswllt hwn, bydd cadwyni newydd yn cael eu gosod, gan roi mynediad at ymyl y cei.

3.6 Dros gyfnod y gaeaf, mae staff wedi cynnal a chadw nifer o feinciau a seddi o amgylch yr harbwr, gyda gwaith pellach i'w gwblhau maes o law. Mae'r gwasanaeth yn dal i dderbyn ceisiadau i leoli meinciau o gwmpas yr harbwr, gyda llefydd cyfyngedig ar gael yn unig.

3.4 Yn ystod tywydd garw, mae'r harbwrfeistr wedi gallu cynnal gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys prosesau asesu risg yn ymwneud â pheryglon a adnabuwyd o amgylch yr harbwr.

## H 4 Materion Eraill

4.1 **Borth-Y-Gest**. Mae'r Gwasanaeth wedi gosod arwyddion diogelwch ychwanegol wrth ddynesu at y traethau ger Borth-Y-Gest, er mwyn ategu'r neges ynglŷn â pheryglon yr ardaloedd hynny i aelodau'r cyhoedd. Mae'r arwyddion, a ddyluniwyd gan yr RNLI, yn cydymffurfio â'r rhai hynny sydd eisoes wedi eu gosod mewn mannau eraill ar arfordir Gwynedd.

4.1.1 Parhau mae bwriad y Gwasanaeth i osod silffoedd dingi uwchlaw'r maes parcio ym Mhorth-y-Gest mewn ymdrech i dacluso'r ardal laswelltog lle mae nifer o gychod yn cael eu cadw ar hyn o bryd. Rhoddir rhybuddion perthnasol ar gychod yn yr ardal honno. Yn ystod y broses hon, bydd cychod nad ydynt yn addas i'r môr a threlars rhydlyd yn cael eu symud oddi yno. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn ymwybodol y bydd mesur o'r fath yn amhoblogaidd gyda nifer o breswylwyr

## H5 Digwyddiadau

5.1 Mae'r Gwasanaeth wedi derbyn cais i gynnal digwyddiad 'Gwledd Symudol' yn Harbwr Porthmadog ar 6 Mehefin 2019.

5.2 Rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn derbyn hysbysiadau pellach o fewn y mis nesaf ynghylch digwyddiadau neu weithgareddau arfaethedig eraill o fewn amgylchedd yr harbwr, yn benodol y rheiny a gynhelir yn flynyddol dros yr haf fel arfer.


Cywir ar y / correct on the 11/02/2020

# Harbwr Porthmadog Harbour

Mae'r sianel yn newid ei chwrs yn rheolaidd, cynghorir bod morwyr yn cysylltu efo'r Harbwrfeistr ym Mhorthmadog am y wybodaeth ddiweddaraf

The channel changes it's course on a regular basis, it's adviced to contact the Harbourmaster at Porthmadog for the latest information.

01766 512927 / 07879 433 147, VHF 12/16




Cynghorir morwyr i beidio mordwyo dros y draethell oni bai fod o fewn 2 awr pob ochor i'r pen llanw, cychod gyda draft fwy na 1.5 i fod fewn 1.5 awr bob ochor i'r pen llanw.

The channel should not be used at any time other than 2hrs either side of high water,vessels with a draft greater than 1.5m should only use the channel 1.5 hrs either side of high water

**Rhybudd / Caution**

**Nid yw gael ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo**

**Not to be used for navigation**

| Fairway | LFlw 10s | Cynnal a chadw | Maintenance |
|---|---|---|---|
| 1 | Q FL G | Off station | Dim ar ei safle |
| 2 | Q FL R | 52° 53.258 N | 004° 10.649 W |
| 3 | FL G3s | Off station | Dim ar ei safle |
| 4 | FL R2 5s | 52° 53.478 N | 004° 09.669 W |
| 5 | FL G2 5s | Tor parhad dros dro | Temp discontinuance |
| 6 | FL R310s | Tor parhad dros dro | Temp discontinuance |
| 7 | FL G310s | 52° 53.681 N | 004° 09.471 W |
| 8 | FL R415s | Tor parhad dros dro | Temp discontinuance |
| 9 | FL G415s | 52° 53.957 N | 004° 09.095 W |
| 10 | FL R2.5s | 52° 54.231 N | 004° 08.883 W |
| 11 | FLG5 20s | Tor parhad dros dro | Temp discontinuance |
| 12 | FL R4s | 52° 54.620 N | 004° 08.424 W |
| 13 | FL G2s | 52° 54.549 N | 004° 08.795 W |
| 14 | FL R6s | 52° 54.863 N | 004° 07.942 W |
| 15 | FL G2 5s | 52° 54.586 N | 004° 08.584 W |
| 17 | FL G6s | 52° 55.015 N | 004° 07.866 W |

***Malcolm Humphreys***

***Harbwrfeistr Porthmadog Harbourmaster***

***01766 512927 / 07879 433 147***

***malcolmhumphreys@gwynedd.llyw.cymru***